

Cofion

- Yr ydym yn parhau i gofio yn ein gweddïau am y rhai sydd mewn anhwylder y dyddiau hyn gan eu cyflwyno hwy a'u teuluoedd yn dyner i ofal yr Arglwydd. Cofiw'n yn arbennig am Trefor Jones a Menna Owen (Cefn Meiriadog); Heulwen Roberts (Henllan); a Harold Pierce (Llanefydd) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd. Anfonwn ein cofion hefyd at Eben Pierce (Cefn Berain) a Ioan Morris (Nantglyn) – y ddau wedi cael anffawd yn ddiweddar, Eben am yr eildro! Cofiw'n hefyd am Elfed Davies (Saron) sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn a chyflwynwn ef ac eraill sydd mewn angen i ofal Duw. Diolchwn amdanynt oll, gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau i Trefor a Dilys Jones (Nantglyn) fydd yn dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ddydd lau nesaf a phob dymuniad da am flynyddoedd lawer eto o hapusrwydd.



Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2012

Bob 5 mlynedd, mae'r enwad yn trefnu apêl arbennig ac eleni wedi penderfynu codi arian tuag at brosiectau Cymorth Cristnogol yn Guatemala. Ein braint fel Eglwys, yn enw'r Arglwydd a thrwy'n rhoi a'n gweddïo, yw helpu rhai o bobl fwyaf difreintiedig y byd i gael cyfle am ddyfodol gwell.

Nod yr apêl yw i bob aelod gyfrannu £1 y mis neu £12 yn ystod y flwyddyn - cyfraniad a all wneud cymaint o wahaniaeth i fywydau llawer.

Fe ddylai'r pecyn apêl fod wedi cyrraedd pob eglwys erbyn hyn. Gobeithio y cewch gyfle i wneud defnydd o'r cynnwys lliwgar a diddorol i hybu'r apêl. Mae adnoddau fel DVD, cyflwyniad PowerPoint, gwasanaethau ayb ar gael i'w lawr lwytho o'r wefan: www.ebcpcw.org.uk/cymraeg/adnoddau/adnoddau-eraill.

Hyderwn y bydd pob eglwys yn ymdrechu i fod yn rhan o'r Apêl. Bydd Cheryl Williams, cydlynnydd yr apêl yn Nyffryn Clwyd, yn gofyn o bryd i'w gilydd am adroddiad byr am y gweithgareddau codi arian yn eich eglwys ac efallai os oes gennych luniau neu stori ddifyr, gellir eu rhannu gyda darllenwyr y Goleud neu ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Yn wahanol i'r hyn a nodir yn y pecyn, dylai unigolion wneud unrhyw sieciau yn daladwy i gyfrif yr eglwys leol. Yna, bydd trysorydd yr eglwys yn anfon un siec i Drysorydd yr Henaduriaeth a fydd, yn ei dro, yn gwneud siec yn daladwy i Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae'r ffurflenni Rhodd Gymorth o fewn y pecynnau'n bwysig yn yr apêl yma ac anogir pawb i'w defnyddio gan fod yr ad-daliad treth yn cyfrannu'n ychwanegol i'r apêl. Gweddïwn am fendith yr Arglwydd ar ein holl ymdrechion.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12^{fed} Chwefror 2012

Beth am ddod i'r noson
gymdeithasol yn Ffestri Llansannan
nos Fercher am 8.00? Croeso i bawb!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da! Croeso i chi i oedfaon y dydd a gobeithio i chi gael wythnos fendithiol a phrofiad newydd o agosatrydd Duw. 'Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael – galwch arno tra bydd yn agos.' Dyma ydi anogaeth gair Duw trwy Esea (55:6) ac fe ddywed Duw ei hun y bydd yn ateb pawb sydd yn ei geisio ac yn agor i bawb sydd yn curo (Luc 11:9). Daliwn at ei addewid a gweddïo gyda 'thaerni digywilydd' (11:8).

Dwi 'di bod fel rhyw dorthoers amser cinio dydd Sul d'wetha! Oes 'na air Cymraeg am 'hibernation'? Trwmgwsg gaeaf efallai. Dwn i ddim beth ddaeth drosod ond, dan ddylanwad y feirws, fedrwn i ddeud dim, na bwyta, na chadw'n effro! Bûm felly am ddeuddydd. Hwyrach y dylem fathu gair Cymraeg am 'man flu' hefyd!? Diolch i Dduw am gael teimlo'n well erbyn hyn a diolch i aelodau Tanyfron a Nantglyn am rannu'r Gair efo'i gilydd pnawn Sul, ac i Celfyn a Dafydd a'r tîm am sefyll yn y bwlch nos Sul, ac i bawb am eich gweddïau.

Heno, os Duw a'i myn, byddwn yn edrych ar bennod 4 o 1af Thesalonïaid. Eich arwain i werthfawrogi'r 'pethau olaf' fydd y nod – ceisio gweld ymlaen – beth sydd gan Dduw ar gyfer ei bobl. Dylem fedru rhoi cyfri am y gobaith sydd ynom. Petai rhywun yn gofyn i ni 'wyt ti'n credu yn y bywyd tragwyddol?', dylem fedru rhoi ateb ac esbonio pam ein bod yn sicr ein gobaith. Ond mae'n na fwy iddi na hynny hyd yn oed. Mae credu'n iawn yn yr hyn sydd gan Dduw ar ein cyfer yng Nghrist yn gwneud gwahaniaeth i'r hyn a wnawn heddiw, i'n blaenoriaethau ac i'r ffordd 'dan ni'n ymagweddu tuag at ein gilydd a thuag at waith yr Efengyl yn ein calonnau ac yn ein gwlad.

Mae Duw mor dda yn rhoi cyfle newydd i ni ei geisio. Mae pob dydd mor werthfawr! Ein braint heddiw yw deffro o drwmgwsg a chyhoeddi mor fawr yw ein Duw a dweud wrth ein gilydd am ei ryfeddodau! Gwnaeth bethau mawr ac y mae'n dal i wneud pethau mawr! Gwardodd ei bobl ac y mae'n dychwelyd i'w casglu. Mae'r Arglwydd yn adeiladu ei eglwys - yn casglu'r rhai sydd ar wasgar (Salm 147) – yn iachau'r rhai sydd wedi torri eu calon ac yn rhwymo eu doluriau. Y mae hefyd yn codi'r rhai gostyngedig ac am iddynt gael gweld ei ogoniant a chael byw! (Ioan 17:24)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Chwaraeon 110%** - Diwrnod o chwaraeon, hyfforddiant, tactegau a thwrnamentau i rai oed uwchradd yn y Bala. Cysylltwch â Steffan Morris ar (01678) 520565 neu steffanmorris@hotmail.co.uk am fwy o wybodaeth.
- Mercher • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Adnabod – Noson gymdeithasol** yn Festri Llansannan am 8.00. Croeso i bawb.
- Iau-Sul • **Cwrs Ieuenticid yng Ngholeg y Bala.** Mwy o wybodaeth gan Rhodri (870522 / 07814 660291).
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elinor, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Gwener Cynhelir Swper y Gymdeithas yn Saron am 6.30, gyda'r elw i Apêl Guatemala. Enwau i Emyr neu Sian HEDDIW, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch. Ioan Davies yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac oedfa gymun yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 gyda'r plant yn cyfarfod yn Henllan.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Nghefn Berain am 11.15.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00 a'r Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

I ddod

- Bydd **Chwiorydd Eglwysi Bro Aled** yn cyfarfod yn Llanefydd nos Fawrth, Chwefror 21ain am 7.00 gyda Dr Mari Lloyd Williams yn annerch. Thema ei sgwrs fydd "Creu Cymunedau sy'n dosturiol".
- Cyflymu at y Nod** – Yr ail o'r cyfarfodydd i holl flaenoriaid y Fro ac i unrhyw un arall sydd â diddordeb i ddod i ddeall mwy am weledigaeth y Fro a gwaith yr eglwys, nos Fawrth, Chwefror 28ain yng Nghapel Henllan am 7.30.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.